

Adolygiad Cyflawni Digidol

Diben

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'Digidol 2030 - fframwaith strategol ar gyfer dysgu digidol ôl-I6 yng Nghymru.' Cynlluniwyd hwn â chymorth gan Jisc a mewnbwn gan ddarparwyr a rhanddeiliaid AB, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a DSW gan sicrhau perthnasedd a pherchnogaeth o'r nodau ac amcanion.

Nod yr Adolygiad Cyflawni Digidol yw nodi ysgogwyr ar gyfer datblygu darpariaeth ddigidol, blaenoriaethu meysydd i roi sylw iddynt ar draws y gwasanaeth, archwilio'r meysydd blaenoriaethol hynny, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer staff.

Bydd trafodaethau yn seiliedig ar fframwaith strategol LIC 2030, CIF Estyn a phecyn cymorth teithiau prentisiaeth Jisc (os yw hyn yn berthnasol i'r darparwr).

Paratoi

Gofynnir i'r darparwr:

- Gadarnhau dyddiad addas
- Trefnu lleoliad gyda seddi cabaret a chysylltiad wifi da
- Gwahodd aelodau staff allweddol i fynychu'r gweithdy
- Dewis templed cynllun gweithredu a'i addasu ar gyfer eu hanghenion

Cyflawni

Cynhelir y gweithdy dros ddiwrnod, a bydd yn cynnwys aelodau allweddol o staff o'r gwasanaeth.

Mae'r ystyriaethau'n cwmpasu meysydd fel seilwaith, adnoddau, gallu staff, addysgu a dysgu, ac asesu. Mae hyn yn golygu y byddai staff o bob rhan o'r sefydliad yn gwneud cyfraniad defnyddiol at y broses ar y diwrnod. Gallai rolau uwch posibl gynnwys TG, Cyllid, Adnoddau Dynol, Cwricwlwm, Gweithrediadau, Ansawdd, a Chydymffurfiaeth.

Mae'r diwrnod yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Adnabod yr ysgogwyr
- Archwilio fframwaith strategol 2030 Llywodraeth Cymru, CIF Estyn a phecyn cymorth teithiau prentisiaethau Jisc
- Blaenoriaethu ystyriaethau (mae 17/18 ym mhob adran ynghyd a lle ar gyfer rhai chi eich hun - wrth baratoi, cynllunio, cyflwyno ac asesu)
- Paru tensiwn ar gyfer yr ystyriaethau sy'n flaenoriaethau pennaf (hawdd, anodd, braf eu cael, hanfodol)
- Mapio camau gweithredu'r ystyriaethau a ddewiswyd (amgylchedd, sgiliau, gwybodaeth, cymhelliant)

- Cynllunio camau gweithredu

Dilyniant

Bydd staff Jisc yn hwyluso'r gweithdy ac yn arwain staff mewn trafodaethau a gweithgareddau. Byddant yn cyfrannu drwy wneud awgrymiadau ac ysgrifennu nodiadau yn rhinwedd eu rôl yn cefnogi'r gweithdy. Fodd bynnag, bydd Jisc hefyd yn gwneud argymhellion perthnasol yn seiliedig ar ganlyniadau'r diwrnod a darperir y rhain mewn adroddiad ar ôl y digwyddiad.

Cost

Mae'r adolygiad hwn wedi'i gynnwys yn aelodaeth Jisc a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Cysylltu

I fanteisio ar yr Adolygiad Cyflawni Digidol ar gyfer eich sefydliad, cysylltwch â rheolwr eich cyfrif:

<https://www.jisc.ac.uk/contact/your-account-manager>